

Gweithlu Addysg Gymraeg – cyfle o’r newydd i arwain newid.

Papur safbwynt i gyfarfod Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru i’n dosbarthiadau a chynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg y 10 mlynedd nesaf ar waith gan ein hawdurdodau lleol ym Medi 2022, weinidog, y mae’n gyfnod cyffrous iawn i addysg ac yn benodol i addysg Gymraeg yng Nghymru.

Mae cynlluniau strategol y Gymraeg mewn Addysg yn awr bron yn barod i’w rhoi ar waith ym mhob rhan o Gymru ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at gyfrannu at y gwaith o’u gweithredu.

Wrth gyfrannu at y gwaith o lunio’r cynlluniau hyn ac wrth ymateb i’r 22 ymgynghoriad ar draws Cymru, yr oedd cynnwys ambell ddeiliant wedi peri pryder.

Mae deiliant 7 yn benodol yn edrych ar yr angen i weld cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Gymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg a’r angen i sicrhau gweithlu digonol i fynd i’r afael â’r twf hwn dros y ddegawd nesaf. Mae’r cyfrifoldeb sydd yn cael ei rhoi ar Awdurdodau Lleol, trwy’r cynlluniau hyn yn golygu bod angen edrych a chynllunio ar gyfer y gweithlu o’r Blynnyddoedd Cynnar hyd at Addysg ôl 16. Gwelwn yn y deiliant hwn hefyd, gyfrifoldeb i edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y sectorau hyn yn y meysydd ADY, y Blynnyddoedd Cynnar, cynorthwyddion ysgol, yn ogystal â’r elfen o weithlu i gefnogi’r dysgu a’r addysgu – yn cynnwys yr hyfforddiant proffesiynol parhaus a’r gweithlu ategol dyddiol yn ein cylchoedd, ein darpariaethau ar ôl ysgol, ein hysgolion ac yn ein hawdurdodau lleol.

Nid oedd cynnwys deiliant 7 y cynlluniau unigol yn mynd yn agos at ddangos sut y gellid cyrraedd y niferoedd yn y gweithlu angenrheidiol ar gyfer twf yn y deilliannau eraill .

Y gwirionedd yw nad yw’r **mecanwaith** i sicrhau’r gweithlu i’r sector - cyn hyd yn oed dechrau gweithio ar y twf yn y ddarpariaeth dros y ddegawd nesaf - yn ddigon amlwg, yn ddigon penodol nac yn ddigon effeithiol, a gyda hyn bydd y gwaith sydd i’w wneud dros y ddegawd nesaf yn gymaint mwy o her o’r herwydd. Rhaid cael y mecanwaith hwn yn amlwg ac yn gweithio fel watsh, cyn i’r cynlluniau ddod i rym ym mis Medi 2022 neu bydd yn gosod sefyllfa amhosibl i Awdurdodau Lleol ac i ddarparwyr gofal plant a chwarae, ysgolion a’u cyrff llywodraethol sydd wedi ymrwymo i gynyddu a darparu lleoliadau a darpariaethau o’r safon uchaf i’r dysgwyr yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru’r cyfle i arwain ar y newid arwyddocaol hwn.

Grym ein Gweithlu¹

Mae Mudiad Meithrin wedi cynhyrchu a chyflwyno dogfen o dan y teitl Grym ein Gweithlu sydd yn gosod y llun yn glir o ran heriau’r gweithlu yn y Blynnyddoedd Cynnar ac yn cynnig datrysiadau pendant i’r sector. Yn anffodus nid oes adborth wedi dod gan Lywodraeth Cymru am y cynllun hyd yn hyn.

¹ <https://meithrin.cymru/wp-content/uploads/2022/02/Grym-ein-Gweithlu-Cymraeg-llai.pdf>

Noda'r cynllun:

Mae Mudiad Meithrin yn credu fod gan bob plentyn hawl i ddarpariaeth gofal ac addysg gynnar o safon ac fod ganddynt hawl ymarferol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hwylus. Ein staff yw'n hadnodd bwysicaf i ddarparu'r hawl a'r ddarpariaeth hon.

Heb ddigon o staff cymwys nid oes unrhyw ran o'r nod yn bosib a cheir her sylweddol i sicrhau fod digonedd o bobl yn dewis cymhwyso i weithio yn y sector Gofal Plant a Chwarae cyfrwng Cymraeg.

Gofynnwn am adborth a thrafodaeth gyda Mudiad Meithrin a'u partneriaid i edrych o ddifrif ar y cynllun hwn ac i ystyried y cynllun fel un y gellid ei defnyddio ar gyfer sicrhau gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Chwarae.

Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg².

Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am lunio a chyhoeddi'r cynllun 10 mlynedd hwn yn ddiweddar. Ond, cynllun 10 mlynedd ydyw. Mae'n pryder yn parhau bod yna ddiffyg mecanwaith weithredu fanwl uniongyrchol wedi ei lunio er mwyn cyrraedd targedau'r holl Awdurdodau Lleol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd dibynnu ar adroddiadau blyneddol yr Awdurdodau Lleol yn unig i fonitro'r cynnydd yn aneffeithiol ac yn rhoi pwysau mawr ar ddarpariaethau ac ysgolion unigol a fydd o bosibl yn methu recriwtio ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm a sicrhau darpariaeth. Ofnwn fod diffyg atebolrwydd hefyd gyda chynllun mor eang.

Mae angen i'r holl rhanddeiliaid allweddol sy'n cyfrannu at greu gweithlu Addysg Gymraeg, ymrwymo'n ddiffuant i sicrhau gweithlu addysg Gymraeg lewyrchus a dod o amgylch y bwrdd i drafod a chynllunio'n fwriadus ac yn barhaus fel corff cynllunio.

Mae angen i'r corff penodol hwn arwain ar ddatblygu'r sector drwy edrych ar strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ac ymateb fesul cam i'r heriau sydd o fewn y sector **heddiw** yn ogyatal â'r hyn y dymunwn ei weld ymhen degawd,

Gofynnwn i chi roi ystyriaeth ddifrifol a chael trafodaeth bellach i sefydlu corff cynllunio newydd gyda'r enw posib: Partneriaeth Gweithlu Cymraeg mewn Addysg.

Gan ddiolch am eich amser i ddarllen ein papur

Elin Maher
Rhieni Dros Addysg Gymraeg
Aelod o Rhwydwaith y Gymraeg ac Addysg CGGC

² <https://llyw.cymru/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg>